

# CYFARWYDDWR RHAGLENNI

**Dyddiad cau: ddydd Llun 12 Ionawr 2026**

belong
THE COHESION AND INTEGRATION NETWORK

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â **Belong – Y Rhwydwaith Cydlyniant ac Integreiddio** – fel ein **Cyfarwyddwr Rhaglenni nesaf**. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Belong wrth i ni gryfhau ein heffaith genedlaethol ac ehangu ein darpariaeth o raglenni ar draws Cymru a Lloegr. Rydym yn chwilio am arweinydd strategol sy'n credu'n frwd mewn creu cymdeithas fwy unedig a llai rhanedig ac sydd eisiau gwneud gwahaniaeth parhaol i gymunedau.

Mae gennym broffil cenedlaethol cryfach, strategaeth feiddgar ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, ac Uwch Dîm Arwain uchelgeisiol, felly mae'n adeg eithriadol i ymuno â ni. Wrth i Belong ddechrau ar y cam nesaf yn nhwf y rhwydwaith, rydym ni'n benderfynol o ddyfnhau ein heffaith, cryfhau ein gwydnwch, a hyrwyddo cydlyniant ac integreiddio ar raddfa fawr.

Mae swydd y Cyfarwyddwr Rhaglenni yn swydd arwain ar lefel uwch sy'n rhan greiddiol o genhadaeth Belong i greu cymdeithas sy'n fwy integredig ac yn llai rhanedig. Fel Cyfarwyddwr Rhaglenni, chi fydd yn bennaf cyfrifol am ddylunio a darparu rhaglenni Belong ledled y DU, ac am sicrhau eu bod yn cael effaith. Byddwch yn arwain tîm o Arweinwyr Rhaglenni a Swyddogion Cyswllt, gan sicrhau bod ein gwaith yn strategol, yn gynhwysol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Gweithredol i lunio strategaeth rhaglenni Belong a chyfrannu at dwf y sefydliad. Mae'r swydd hon yn ddelfrydol ar gyfer rhywun sydd â hanes cryf o arwain rhaglenni, datblygu partneriaethau a sicrhau effaith gymdeithasol.

Rydym yn chwilio am arweinydd rhaglenni profiadol, llawn gweledigaeth sydd â dealltwriaeth ddofn o gydlyniant cymdeithasol, polisi cymdeithasol a newid systemau. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn hyderus wrth arwain timau, rheoli portffolios cymhleth a meithrin partneriaethau strategol. Bydd gennych arddull arwain gydweithredol a chynhwysol a byddwch yn llawn brwdfrydedd dros greu newid parhaol. Byddwch hefyd yn hynod drefnus, yn graff yn wleidyddol ac yn gallu troi'r wybodaeth sydd gennych yn gamau gweithredu. Bydd gennych chwilfrydedd deallusol, ymwybyddiaeth wleidyddol gref ac ymrwymiad i degwch a chynhwysiant. Byddwch yn gyfathrebwr cryf a byddwch yn gallu troi syniadau cymhleth yn negeseuon hygyrch a meithrin perthnasoedd llawn ymddiriedaeth ar draws sectorau. Os mai chi yw'r person yma, a'ch bod chi'n edrych ymlaen at helpu i siapio dyfodol Belong a sbarduno newid cadarnhaol ledled y DU, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Kelly Fowler**
Prif Swyddog Gweithredol, Belong



# Gwybodaeth am Belong

**Belong yw prif rwydwaith nid-er-elw y Deyrnas Unedig ym maes cydlyniant cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda chymunedau, awdurdodau lleol, a phartneriaid cenedlaethol i gryfhau ymddiriedaeth, yr ymdeimlad o berthyn, a gwydnwch drwy raglenni arloesol a gwaith ymchwil a dylanwadu ar bolisïau. Mae ein haelodaeth yn tyfu ac mae'n cynnwys awdurdodau lleol, elusennau, cymdeithas sifil, a busnes.**

## Dyma'r hyn y mae Belong yn ei wneud:

- PGwaith cydlyniant a gwaith rhyngddiwylliannol mewn lleoedd penodol gydag awdurdodau lleol a chymunedau.
- Gwaith ymchwil a pholisi i gynyddu'r sylfaen o dystiolaeth a dylanwadu ar newid cenedlaethol.
- Hyfforddiant, ymgynghoriaeth, a datblygu arweinyddiaeth.
- Rhannu gwybodaeth, rhwydweithiau, digwyddiadau dysgu, ac arwain agweddau.

**Rydym yn gydweithredol, yn cael ein harwain gan dystiolaeth, ac wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant.**



# Ein Tîm

Yn Belong, yr hyn sy'n uno ein tîm yw ein hymrwymiad ar y cyd i greu cymdeithas sy'n fwy cynhwysol a chysylltiedig. Rydym yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd sydd â chefndir mewn ymchwil, ymgysylltu â'r gymuned, cyfathrebu, gwaith hwyluso, a pholisi. Rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol, sefydliadau cymdeithas sifil, sefydliadau academaidd, a phartneriaid cenedlaethol i gryfhau cydlyniant cymdeithasol ledled y DU.

# Buddion

- 30 diwrnod o wyliau y flwyddyn (yn ogystal â gwyliau banc)
- Gweithio'n hybrid
- Tâl salwch uwch
- Tâl mamolaeth a thadolaeth uwch



# Gwybodaeth am y Swydd

**Teitl y swydd:** Cyfarwyddwr Rhaglenni
**Oriau gwaith:** Llawn-amser
**Lleoliad:** Ledled y DU gan deithio'n rheolaidd ledled Cymru a Lloegr
**Math o gontract:** Parhaol
**Cyflog:** £65,000–£70,000

Byddwch yn arwain portffolio rhaglenni Belong, gan sicrhau ansawdd, cysondeb, ac effaith. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a chydweithwyr ar lefel uwch i lunio'r strategaeth a chyfrannu at dwf y sefydliad.

## Prif Gyfrifoldebau

### Arweinyddiaeth Strategol ar Raglenni

- Arwain y gwaith o ddatblygu a darparu rhaglenni Belong mewn lleoedd penodol
- Sicrhau bod y rhaglenni'n cyd-fynd â chenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion strategol Belong
- Goruchwylio'r gwaith o ddylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni, a'r hyn a ddysgir yn eu sgil
- Bod yn rheolwr llinell i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Arweinwyr Rhaglenni a Chydlynwyr Rhaglenni, gan gynnig cefnogaeth, goruchwyliaeth a datblygiad
- Defnyddio arferion meddwl drwy systemau i ddeall natur ryng-gysylltiedig ecosystemau cymunedol, polisi a gwasanaeth
- Sicrhau ansawdd, cysondeb ac effaith rhaglenni ar draws yr holl feysydd darparu
- Sicrhau cydweithio agos â'r tîm Polisi ac Ymchwil fel bod darpariaeth rhaglenni Belong yn cael ei siapio gan wybodaeth ymchwil, tra bod y profiad o ddarparu'r rhaglenni, yn ei dro, yn llywio blaenoriaethau polisi ac ymchwil ar gyfer y dyfodol.

## Prif Gyfrifoldebau

### Ymgysylltu â Phartneriaid a Rhanddeiliaid

- Meithrin a chynnal perthynas â chyllidwyr, comisiynwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol yn y lleoedd y mae Belong yn gweithio ynddynt
- Goruchwylio'r rheolaeth ar waith heriol a gwleidyddol sensitif gydag amrywiaeth o randdeiliaid
- Cynrychioli Belong mewn fforymau a digwyddiadau ac ar rwydweithiau cenedlaethol
- Arwain ar gyd-ddylunio a dulliau cydweithredol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid
- Canfod a mynd ar drywydd cyfleoedd newydd i ddatblygu ac ariannu rhaglenni

### Datblygiad Sefydliadol

- Cyfrannu at waith cynllunio strategol a thwf sefydliadol Belong
- Gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a chydweithwyr ar lefel uwch i ddatblygu modelau a dulliau gweithredu newydd ar gyfer rhaglenni
- Chwarae rhan weithredol i gefnogi cynhyrchu incwm drwy ddatblygu cynigion a chanfod ac ymgysylltu â chyllidwyr
- Rhannu dysg a gwybodaeth ar draws y sefydliad er mwyn llywio strategaethau yn y dyfodol

Sylwch: Rhestr enghreifftiol yw hon, ac nid yw'n cynnwys popeth. Mae'n bosibl y bydd gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol sy'n cyd-fynd â'r swydd.

# Amdanoch Chi

## Rydym yn chwilio am arweinydd profiadol, llawn gweledigaeth, sydd â:

- Phrofiad diamheuol o arwain portffolios rhaglenni cymhleth
- Dealltwriaeth gref a/neu brofiad o ddarparu rhaglenni mewn maes cysylltiedig
- Profiad o weithio ar lefel uwch yn y sector elusennol, cyrff anllywodraethol neu'r sector cyhoeddus
- Crebwyll gwleidyddol a chwilfrydedd deallusol
- Sgiliau cadarn o ran arwain a rheoli llinell
- Ymwybyddiaeth o newid systemau a dulliau cyfranogol
- Profiad o reoli amrywiaeth o randdeiliaid o'r lefel strategol uwch i gymunedau
- Sgiliau rhagorol o ran meddwl yn strategol a chynllunio
- Profiad o gynhyrchu incwm a datblygu ceisiadau
- Gallu i feithrin a chynnal partneriaethau ar lefel uchel ac ymgysylltu'n hyderus â byd polisi (y rhai sy'n gwneud penderfyniadau) ac ymarfer (gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen)
- Dealltwriaeth o faterion cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio
- Sgiliau cadarn o ran cyfathrebu a dylanwadu
- Profiad o fesur a gwerthuso effaith
- Gallu i fod yn drefnus iawn a rheoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd
- Sgiliau rheoli prosiectau a risgiau

Dymunol: profiad mewn gwaith sy'n gysylltiedig â Prevent, atal a mynd i'r afael ag eithafiaeth dreisgar (PCVE), tensiynau cymunedol/troseddau casineb/camwybodaeth a thwyllwybodaeth

## Rhinweddau Personol

- Llawn brwdfrydedd dros wella cydlyniant ac integreiddio yn y DU
- Gallu meddwl yn strategol ac yn llawn gweledigaeth
- Arweinydd cydweithredol a chynhwysol
- Diplomyddol a gwleidyddol graff
- Ymarferol, pendant a dibynadwy
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol





# Y Broses o Wneud Cais

**Dyddiad cau: 23.59pm ddydd Llun 12 Ionawr 2026**
**Cyfweliadau cam cyntaf: 22ain a 23ain Ionawr, ar-lein**
**Ail gam cyfweliadau: 9 Chwefror, wyneb yn wyneb**

I wneud cais, cyflwynwch eich CV a llythyr eglurhaol sy'n nodi sut rydych chi'n bodloni manyleb y person i recruitment@belongnetwork.co.uk gan roi 'Application to the role of Programme Lead' yn deitl i'r e-bost.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi drefnu trafodaeth gychwynnol, anffurfiol am y swydd, cysylltwch â recruitment@belongnetwork.co.uk






belongnetwork.co.uk

linkedin.com/the-belong-network

twitter.com/BelongNetwork

Elusen gofrestredig: 1180761



belong THE COHESION AND INTEGRATION NETWORK

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND